

Meddygfa Lon Ganol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

YR HYN A WNAETHOM

Daeth Rheolwr ein practis ar draws Cynllun Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru yn 2024 ac fe deimlai ei bod yn bwysig i ni gofrestru a chymryd rhan. Fel un o'r derbynyddion yn y practis, roeddwn i'n awyddus i fod yn rhan o hyn. Cyn hyn, nid oedd cynaliadwyedd amgylcheddol wedi bod ar ein agenda. Fodd bynnag, fe sylweddolom ni'n gyflym ein bod ni eisoes yn gwneud rhai o'r camau gweithredu o fewn y fframwaith heb sylweddoli hynny a helpodd hyn ni i gyflawni'r lefel efydd yn eithaf hawdd.

Yna dechreuon ni weithio tuag at wobwr arian drwy weithredu rhai syniadau newydd o fewn y practis fel ysgrifennu Polisi Amgylcheddol a hyrwyddo mentrau llesiant staff. Roedd hyrwyddo mentrau llesiant staff yn wirioneddol bwysig i ni gan ein bod yn dîm bach iawn ac eisiau gofalu am ein gilydd.

Un o'r prif newidiadau a fabwysiadwyd gennym oedd dod o hyd i gynnyrch glanhau ecogyfeillgar o'r enw 'SoluClean' sy'n rhydd o blastig ac wedi'i selio mewn bagiau ffilm hydawdd mewn dŵr. Mae'r deunydd pacio yn ailgylchadwy ac mae opsiwn i ddefnyddio poteli y gellir eu hailddefnyddio gyda'r cynnyrch. Mae hyn wedi lleihau ein defnydd o blastig untro yn fawr.

O ran cyd-fanteision cymryd rhan yn y cynllun, roeddem yn falch o sylwi ar rai arbedion cost o ddiffodd y goleuadau a diffodd yr holl gyfrifiaduron. Rydym hefyd wedi lleihau gwastraff na ellir ei ailgylchu ers i'r rheoliadau ailgylchu newydd ddod i rym, ac mae wedi gwneud inni ystyried pa gynhyrchion eraill sy'n anodd eu hailgylchu y gallem eu casglu ar ran ein staff a'n cleifion e.e. batris a bagiau plastig.

YR HYN YR YDYM FWYAF BALCH OHONO

Roedd yn her dod o hyd i'r amser i gymryd rhan yn y Cynllun gan mai dim ond practis bach ydym ni ac fe wnaethon ni brofi rhywfaint o brinder staff y llynedd. Fodd bynnag, gyda dyfalbarhad a hyblygrwydd, llwyddom i gyflawni digon o gamau gweithredu i gyrraedd y wobwr arian erbyn diwedd 2024. Rydym nawr yn gweithio tuag at y wobwr aur ar gyfer 2025/26 ac un ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod fydd dod o hyd i ddarparwr fforddiadwy o offer meddygol y gellir ei aildefnyddio.



Arddangosfa 'Ewch yn Wyrdd' yn ardal aros y cleifion



DERBYNIODD MEDDYGFA LON GANOL WOBWR GOFAL SYLFAENOL GWYRDDACH CYMRU YN 2024

"Mae cymryd rhan yn y cynllun wedi dod â nifer o fuddion, gan gynnwys buddion ariannol, buddion ar lefel y practis ac wrth gwrs buddion amgylcheddol. Mae hwn hefyd wedi bod yn ddarn gwybodaeth i Heledd (ein harweinydd gwyrdd) fod yn rhan ohono. Byddwn i'n argymhell cymryd rhan."

MANYLION CYSWLLT:

Heledd Morgan, Derbynydd
heledd.morgan@wales.nhs.uk

I GAEL RHAGOR O WYBODAETH, EWCH I:

<https://www.middlelanesurgery.co.uk/>